

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa i helpu pobl anabl i sefyll am etholiad yng Nghymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n
feddwl

Rhowch eich barn inni os gwelwch yn dda erbyn mis 20
Ionawr 2021



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan
Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o
'Trefniadau ar gyfer Mynediad i gronfa Mynediad i Swydd
Etholedig'.

Hydref 2020

Rhif: WG41482

Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma	3
.....Error! Bookmark not defined.	
Cyflwyniad	5
Cefndir	6
Y Senedd	6
Llywodraeth Leol	7
Yr angen am newid.....	10
Deall pwy sydd yn ein cynrycholi ni.....	11
Sut mae ymgeiswyr yn gallu hawlio arian yn ôl pan maen nhw'n sefyll mewn etholiadau Senedd a Llywodraeth Leol	13
Sut bydd y rheolau yma yn newid i ymgeiswyr anabl .	14
.....	14
Profi'r system newydd yma	15
Ar gyfer beth rydych chi'n gallu defnyddio'r gronfa yma	16
Sut bydd y gronfa'n gweithio	18
Beth sydd yn digwydd nesaf.....	19
Geiriau anodd	20

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd eu darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas** normal. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y **geiriau anodd** ar dudalen 21.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â :



E-bost:

LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales

Ffôn: Sarah Warne 03000 251047



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols** .

Cyflwyniad



Rydyn ni'n cychwyn cronfa i helpu ymgeiswyr anabl i dalu am unrhyw gostau ychwanegol pan maen nhw'n sefyll mewn etholiad.



Enw'r gronfa newydd yma ydy **Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru**. Yn y ddogfen yma rydyn ni'n galw'r **gronfa** ar hyn.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau ar gyfer y gronfa.



Pan rydych chi wedi darllen y ddogfen yma e-bostiwch eich ymateb os gwelwch yn dda i

LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales

Cefndir

Mae **Llywodraeth Cymru** eisiau cynyddu **amrywiaeth** ym mhopeth mae'n wneud.




Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wneud gwahanol bethau.



Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu cymryd rhan yn y Senedd a llywodraeth leol drwy sefyll mewn etholiad.

Y Senedd



Y Senedd ydy senedd Cymru. Grŵp o 60 o bobl o wahanol rannau o Gymru ydy'r Senedd.



Mae'r bobl yma yn cael eu galw yn Aelodau'r Senedd. Mae 40 o aelodau a 20 o aelodau rhanbarthol.



Mae Aelodau'r Senedd yn:

- Gwneud deddfau newydd i Gymru

- Siarad dros bobl yn eu rhan nhw o Gymru.

Llywodraeth Leol



Cynghorau lleol sydd yn gwneud Llywodraeth Leol. Er enghraifft:

- cynghorau sir
- cynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned a thref



Mae cynghorau yn rhedeg gwasanaethau i bobl a busnesau mewn ardal leol.



Mae gwasanaethau cyngor yn cynnwys gofal cymdeithasol, ysgolion, tai a chasglu gwastraff.



Cynghorwyr ydy'r bobl sydd ar y cyngor.




Yng Nghymru mae yna lawer o gynghorwyr yn cynrychioli pobl ar draws Cymru.




Pan mae pobl yn sefyll mewn etholiad maen nhw'n rhoi eu hunain ymlaen i gynrychioli'r cyhoedd yn y cyngor neu yn y Senedd. Maen nhw'n cael eu galw yn ymgeiswyr



Mewn etholiad mae'r cyhoedd yn dewis yr ymgeisydd maen nhw eisiau i'w cynrychioli nhw.



Mae'r cyhoedd yn gwneud hyn drwy bleidleisio dros yr ymgeisydd maen nhw'n feddwl sydd yn eu cynrychioli nhw a'u buddiannau gorau.



Mae rhai ymgeiswyr yn aelodau o bleidiau gwleidyddol. Mae ymgeiswyr eraill yn annibynnol a dydyn nhw ddim yn cynrychioli pleidiau gwleidyddol.



Mae rhai pobl wedi cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth. Mae hyn yn meddwl does dim llawer o bobl fel nhw mewn rolau etholedig.



Mae **Llywodraeth Cymru** wedi ymrwymo i newid hyn.

Model Cymdeithasol o Anabledd



Ers 2002 mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Ffordd ydy'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** o weld y byd. Mae'n dweud bod pobl yn anabl drwy **rhwystrau** mewn cymdeithas, dim drwy eu nam.



Mae'r **rhwystrau** yma yn gallu meddwl:

- agweddau negyddol fel meddwl nad ydy pobl anabl yn gallu gwneud pethau
- rhwystrau corfforol fel grisiau



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ein helpu ni i gydnabod y rhwystrau sydd yn gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl anabl.



Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael gwared ar y rhwystrau yma yn y ffordd rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni hefyd yn helpu gwasanaethau a chyrff eraill i feddwl fel hyn hefyd.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn gallu eu gwneud.

Yr angen am newid



Mae Cymru yn rhan o'r **Cenhedloedd Unedig**. Mae'r **Cenhedloedd Unedig** yn gorff rhyngwladol gyda chynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o wledydd y byd.



Mae **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau** yn dweud bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Mae'r **Cenhedloedd Unedig** yn dweud bod rhaid i bobl anabl

- gael hawl cyfartal i fyw ac i gymryd rhan yn y gymuned
- cael hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl sydd ddim yn anabl

Gwneud pethau'n gyfartal



Rydyn ni eisiau cael gwared ar unrhyw rwystrau sydd yn stopio pobl anabl yng Nghymru rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Rydyn ni'n meddwl y byddai hyn yn dda i bobl anabl ac i'r wlad.

Deall pwy sydd yn ein cynrycholi ni



Rydyn ni'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr holl bobl yn cael eu cynrychioli mewn llywodraeth.



Un ffordd o wneud hyn ydy gofyn i bob cynghorydd ac ymgeisydd lenwi arolwg.

Mae hyn yn dweud wrthyn ni pa fath o bobl sydd yn dod yn ymgeiswyr a chynghorwyr.



Doedd dros hanner y bobl y gwnaethon ni ofyn iddyn nhw ddim wedi llenwi'r arolwg. A doedd pawb ddim wedi ateb yr holl gwestiynau.

Ond mae'r arolygon mywyaf diweddar yn dangos bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr a chynghorwyr yn:



- Dros 60
- Dynion
- Gwyn
- Ddim yn gweithio llawn amser



Mae'r arolygon yma yn dangos bod llawer o bobl wedi cael eu tangynrychioli mewn Llywodraeth Leol.



Mae pobl anabl wedi cael eu tangynrychioli mewn Llywodraeth Leol ac yn y Senedd

Rydyn ni eisiau newid hyn gan ein bod ni'n credu bod gan bobl anabl:



- Hawl cyfartal i fyw a chymryd rhan yn y gymuned



- Hawl i gael yr un dewis a rheolaeth â phobl sydd ddim yn anabl

Sut mae ymgeiswyr yn gallu hawlio arian yn ôl pan maen nhw'n sefyll mewn etholiadau Senedd a Llywodraeth Leol



Mae'r gyfraith yn dweud bod ymgeiswyr yn gallu gwario swm fechan o arian ar eu **hymgyrch etholiad**.



Ymgyrch etholiad ydy pan mae ymgeisydd yn dweud wrth bobl am eu syniadau am pam dylen nhw bleidleisio drostyn nhw.



Mae'r ddeddf yn dweud bod rhaid i ymgeisydd ddweud wrth y **Comisiwn Etholiadol** faint o arian maen nhw wedi ei wario ar eu **hymgyrch etholiad**.



Corff ydy'r **Comisiwn Etholiadol** sydd yn gwneud yn siŵr bod etholiadau yn deg. Maen nhw'n edrych i weld bod ymgeiswyr ddim y gwario gormod ar eu **hymgyrchoedd etholiad**.

Sut bydd y rheolau yma yn newid i ymgeiswyr anabl



Fe fydd deddf newydd yn dod i rym ym mis Tachwedd 2020.



Mae'n dweud na fydd arian sydd yn cael ei wario ar bethau yn berthynol i nam neu gyflwr iechyd ymgeiswyr anabl yn cael ei gynnwys yn eu terfyn costau.



Mae hyn yn meddwl bod ymgeiswyr anabl yn gallu cael gafael ar gronfa ar wahân i dalu am bethau fel tacsis a Chymorth Personol.



Mae'r ddeddf yma yn defnyddio'r un diffiniad o anabledd â **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Dyma nhw:

- Mae gan berson anabledd os oes gan berson nam corfforol neu feddyliol
- A bod gan y nam effaith negyddol mawr a hir dymor ar allu person i wneud gweithgareddau normal bob dydd.

Profi'r system newydd yma



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gronfa newydd yma yn gweithio.

Fe fyddwn ni'n profi'r gronfa yn yr etholiadau yma:

- **Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021**
- **Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022**


Mae ymgeiswyr anabl yn yr etholiadau yma yn gallu cael:



- cyngor am y mathau o gefnogaeth sydd ar gael
- arian i'w helpu nhw i dalu gyda chostau ychwanegol fel eu bod nhw'n gallu cymryd rhan yn yr etholiad



Fe fydd y corff **Anabledd Cymru** yn edrych ar ôl y gronfa.



Yn Rhagfyr 2022 fe fyddwn ni'n cyhoeddi adroddiad i ddweud os ydyn ni'n meddwl bod y gronfa yn gweithio'n dda neu beidio.



Fe fydd yr adroddiad yma yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu beth i'w wneud yn y dyfodol.

Ar gyfer beth rydych chi'n gallu defnyddio'r gronfa yma

Mae'r gronfa yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer pethau fel:



- cefnogaeth trafnidiaeth



- meddalwedd darllen sgrin ac offer cyfrifiadur eraill



- dehongli Iaith Arwyddion Prydeinig
- fformatau hygyrch fel Braille, Hawdd ei Ddeall a fformatau sain



- costau tacsï



- cymorth personol

Dydy hi ddim yn bosibl rhestru popeth rydych chi'n gallu defnyddio'r gronfa ar eu cyfer. Oherwydd mae gan ymgeiswyr anabl nifer o wahanol anghenion.

Sut bydd y gronfa'n gweithio



Fe fydd y corff **Anabledd Cymru** yn gallu cyflogi cydgysylltydd i reoli'r gronfa.



Fe fydd y cydgysylltydd yn:

- dweud wrth bobl am y gronfa
- rhoi cyngor i ymgeiswyr am y gronfa a'r broses o wneud cais



Fe fydd **Anabledd Cymru** hefyd yn sefydlu Bwrdd Cyngori. Grŵp o bobl ydy hyn fydd yn:

- gwneud yn siŵr bod y gronfa'n gweithio'n iawn
- penderfynu pa geisiadau i'r gronfa fydd yn cael cefnogaeth



Pobl anabl fydd ar y Bwrdd Cyngori.




Fe fydd gan y bobl ar y Bwrdd Cyngori lawer iawn o wybodaeth a phrofiad.

Beth sydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau ar gyfer y gronfa.



Os gwelwch yn dda, atebwch y cwestiynau ar y **ffurflen ymateb**.



Fe fyddwn ni'n defnyddio beth rydych chi'n ddweud wrthyn ni i wneud penderfyniadau am y gronfa.

Geiriau anodd

Amrywiaeth

Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wneud gwahanol bethau.

Ymgyrch etholiad

Ymgyrch etholiad ydy pan mae'r ymgeiswyr yn dweud wrth bobl am eu syniadau a pham dylai pobl bleidleisio drostyn nhw.

Comisiwn Etholiadol

Corff ydy'r **Comisiwn Etholiadol** sydd yn gwneud yn siŵr bod etholiadau yn deg. Maen nhw'n edrych i weld bod ymgeiswyr ddim yn gwario gormod ar eu **hymgyrchoedd etholiad**